**Eitem ar yr agenda: 8**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| **DYDDIAD:** | 19 GORFFENNAF 2004 |
| **ADRODDIAD GAN:** | Y TRYSORYDD |
| **PWNC:** | RHEOLAETH DRYSORYDDOL |

1. CYFLWYNIAD

1.1 Ar 15 Rhagfyr 2003 mabwysiadodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru Gôd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Drysoryddol (y côd). Mae'r Côd yn gwneud gofyniad bod adroddiad am weithgarwch y flwyddyn flaenorol a newidiadau mewn deddfwriaeth Rheolaeth Drysoryddol yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod.

2. GWEITHGARWCH RHEOLAETH DRYSORYDDOL 2003-2004

2.1 BENTHYCIADAU

Y Bwrdd Benthyciadau Gweithfeydd Cyhoeddus sy'n darparu'r holl arian cyfalaf ar gyfer yr Awdurdod. Y swm a fenthyciwyd yn 2003-2004 oedd £615,000, ac roedd hyn yn unol â'r Cyfyngiad Benthyca a gyfrifwyd ar gyfer yr Awdurdod.

2.2 BUDDSODDIADAU

Hyd at 15 Ionawr 2004 roedd y swm arian yng nghyfri banc yr Awdurdod Tân yn cael ei roi gydag arian Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac yn cael ei fuddsoddi ar y farchnad gan Gonwy. Roedd arian yr Awdurdod Tân yn cael ei cysoni'n ddyddiol, a'r llog yn cael ei dalu ar y raddfa dros nos roedd Conwy'n ei gael gydag 0.25% ychwanegol. Y swm a dderbyniwyd gan Gonwy ar gyfer 2003-2004 oedd £111,130.62.

Wrth fabwysiadu'r 'côd' yn Rhagfyr 2003 a'r twf mewn arian oherwydd y Ddarpariaeth Bensiynau ystyriwyd mai doeth fyddai i'r Awdurdod Tân fuddsoddi ar ei liwt ei hun. Ers 15 Ionawr 2004 buddsoddwyd yr holl arian dros ben ar y farchnad yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Tân. Swm ar gyfartaledd y buddsoddiadau am y cyfnod Ionawr i Mawrth 2004 oedd £4,000,000. Y swm a enillwyd ar fuddsoddiadau uniongyrchol yn 2003-2004 oedd £33,139.04.

Y gyllideb ar gyfer incwm buddsoddiadau ar gyfer 2003-2004 oedd £70,000 a'r incwm buddsoddiadau gwir a gafwyd oedd £144,269.56. Y rheswm am y cynnydd sylweddol yn yr incwm a ddisgwyliwyd yw oherwydd cyfuniad o gyfraddau llog uwch na'r disgwyl, mwy o arian, a strategaeth fuddsoddi ddoeth.

## 3 DEDDFWRIAETH RHEOLAETH DRYSORYDDOL

3.1 O ganlyniad i gyflwyno'r Côd Darbodus, mae'r rheoliadau ynghylch buddsoddiadau wedi eu diddymu, ac mae gallu awdurdodau lleol i fuddsoddi bellach yn cael ei gynnwys yn Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol newydd 2003. Roedd y Cynulliad wedi penderfynu na fyddai unrhyw reoliadau ynghylch buddsoddi, ond y byddent yn cyhoeddi cyfarwyddyd.

3.2 Mae'r cyfarwyddyd yn nodi y dylai'r pwyslais fod ar sicrwydd a hylifedd yn hytrach nag elw, ac mae'n awgrymu y dylai awdurdodau lleol gymeradwyo Strategaeth Fuddsoddi flynyddol sy'n rhannu'r gwrthbartïon rhwng "Buddsoddiadau Penodedig" a "Buddsoddiadau Amhenodedig" a chymeradwyo'r swm o fuddsoddiadau "Amhenodedig". Mae'r buddsoddiadau penodedig wedi cael statws credyd da gan un neu fwy o'r asiantaethau statws (Fitch, Moody's a Standard and Poor). Nid yw buddsoddiadau amhenodedig yn cael statws ond maent yn dal yn ddiogel oherwydd yr amddiffynfeydd sydd mewn lle i leihau'r risgiau. Gan fod y symiau dan sylw yn gymharol fychan a nifer y gwrthbartïon a fyddai'n dod dan "Buddsoddiadau Penodedig" yn eithaf niferus ystyrid mai doeth fyddai i'r holl fuddsoddiadau yn y dyfodol fod yn rhai "Buddsoddiadau Penodedig" yn unig.

3.3 Yn dilyn y cyngor a gafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan eu hymgynghorwyr Rheolaeth Drysoryddol (Butlers) y dull a awgrymir i'r Awdurdod Tân yw fel a nodir isod. Byddai hyn yn cymryd lle'r rhestr gwrthbartïon a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15fedRhagfyr 2003. Mae'r holl fuddsoddiadau am y 364 diwrnod neu lai.

BUDDSODDIADAU AMHENODEDIG

(i) Y Swyddfa Rheoli Dyled – Adran o'r Llywodraeth yw hon ac mae'n cael statws AAA, a gall y cyfyngiad presennol o £5 miliwn barhau.

(ii) Awdurdodau lleol (ac eithrio'r rhai sy'n agored i gyfyngiad ar dreth cyngor ac archebiant dan ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992) – er nad oes ganddynt statws maent yn ddiogel ac yn hylifol a gall y cyfyngiad presennol o £2 filiwn barhau.

(iii) Banciau Prydain ac Iwerddon – dylid categoreiddio pob banc (a'u his-gwmnïau sydd mewn perchnogaeth lawn) ac un neu fwy o statws tymor byr o F1 ( Fitch) P1 (Moody's) neu A1 (Standard and Poor) fel gwrthbarti. Bydd hyn yn ychwanegu'r banciau canlynol i'r rhestr bresennol, ac mae gan bob un y statws angenrheidiol eisoes:
Bank of Butterfield, Close Brothers, Co-operative Bank, Credit Suisse, First Boston, Egg, Merrill Lynch, Standard Life, Bank of New York Europe, Citibank, HFC Bank, Clydesdale, Standard Chartered, N.M. Rothschild, Schroders, Singer and Friedlander, Morgan Grenfell, Cheltenham and Gloucester, Ulster Bank.

Gall yr uchafswm buddsoddiant gyda'r sector bancio aros ar £5 miliwn.

(iv) Cymdeithasau Adeiladu – Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn benthyca i gymdeithasau yn seiliedig ar faint eu hasedau net. Yr awgrym bellach yw y gellir trin pob cymdeithas sydd â statws a thros £1 biliwn mewn asedau fel "Buddsoddiadau Penodedig" a phob cymdeithas yn cael cyfyngiad o £2 filiwn. Gellir ystyried yr holl gymdeithasau eraill fel "Buddsoddiadau Amhenodedig" ac felly eu tynnu o'r rhestr o wrthbartïon.

3.4 Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl wrthbartïon a awgrymir yn Atodiad 1 i'r adroddiad yma.

4. <u>ARGYMHELLION</u>

4.1 Argymhellir

(i) Bod yr aelodau'n nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheolaeth Drysoryddol am 2003-2004.

(ii) Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r rhestr ddiwygiedig o wrthbartïon.

K W FINCH
**<u>Trysorydd</u>**

**ATODIAD 1**

**(1) BANCIAU**
**£5m o Gyfyngiad Benthyca**
Barclays
Lloyds TSB
Cheltenham and Gloucester
HSBC
Northern Rock
National Westminster
Royal Bank of Scotland
Abbey National
Alliance and Leicester
Bank of Ireland
HBOS
Bradford and Bingley
Bank of Butterfield
Close Brothers
Co-operative Bank
Credit Suisse
First Boston International
Egg
Merrill Lynch International Bank
Standard Life
Bank of New York Europe
Citibank
HFC Bank
Clydesdale
Standard Chartered
N M Rothschild
Schroders
Singer and Friedlander
Morgan Grenfell
Allied Irish (GB)
Bristol and West
Anglo Irish Bank Corp.
First Active
Irish Permanent
Depfa Bank
IIB Bank
Ulster Bank

**(2) LLYWODRAETH GANOLOG**
**£5m o Gyfyngiad Benthyca**
Y Swyddfa Rheoli Dyled

**(3) AWDURDODAU LLEOL**
**£2m o Gyfyngiad Benthyca**
Oll ag eithrio’r rhai sy’n agored i gyfyngiad ar dreth cyngor ac archebiant dan ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**(4) CYMDEITHASAU ADEILADU**
**£2m o Gyfyngiad Benthyca**
Nationwide
Britannia
Yorkshire
Portman
Coventry
Chelsea
Skipton
Derbyshire
Cheshire
Principality
Leeds and Holbeck
Norwich and Peterborough
Dunfermline